Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gatholig y Santes Fair - Brynmawr

**Catholic Road**
**Brynmawr**
**Blaenau Gwent**
**NP23 4EF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gatholig y Santes Fair - Brynmawr

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gatholig y Santes Fair - Brynmawr |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Catholig Rufeinig |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 235 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 196 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 24.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 10.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 20.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/06/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn ysgol groesawgar a gofalgar lle mae staff yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i greu cymuned ddysgu gefnogol, gan rannu gweledigaeth yr ysgol i 'weithio, gweddïo, rhannu a dysgu gyda'n gilydd'. Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach, i greu amgylchedd dysgu llwyddiannus lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u cynnwys.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn gweithio'n agos i gynorthwyo pob aelod o'r gymuned, gan ddarparu cymorth gwerthfawr ar gyfer teuluoedd newydd, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'r gymuned ac nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, yn ystod y diwrnod ysgol ac mewn digwyddiadau ar ôl yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi lles disgyblion wrth ganol ei gwaith, ac yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion bregus.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd a darllen yn dda. Maent yn cymhwyso'u medrau rhifedd i gefnogi eu dysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm, er enghraifft wrth gwblhau graffiau bar i gofnodi pellterau a deithiwyd gan athletwyr. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol priodol i greu cyflwyniadau a chreu animeiddiadau syml. Fodd bynnag, mae medrau llafaredd ac ysgrifennu disgyblion yn llai datblygedig ac nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i adeiladu ar eu medrau llythrennedd yn raddol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Pan mae'r addysgu'n effeithiol, mae athrawon yn defnyddio asesiadau'n briodol i gynllunio gwersi sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion, ac maent yn sicrhau bod her addas ar gyfer pob un o'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, mae disgwyliadau'n rhy isel a cheir cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau hunanwerthuso i werthuso a monitro'r cynnydd a wna disgyblion, ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol, yn enwedig mewn darllen. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae defnydd arweinwyr o hunanwerthuso a monitro i gefnogi cynllunio gwelliant yn eang a hir ac nid yw'n canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd pwysicaf i ysgogi gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethol i reoli cyllideb yr ysgol yn briodol a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn gadarn. Mae'r tîm arweinyddiaeth newydd a ffurfiwyd yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro ar y cyd i nodi blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn cysylltu ag athrawon i gryfhau eu gwybodaeth am ddiwygio diweddar, yn cynnwys diwygio ADY a Chwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn sefydlu perthnasoedd effeithiol ag ysgolion eraill ac mae hyn yn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon, gan gryfhau eu gwybodaeth a'u medrau o ran newidiadau i'r cwricwlwm.

## Argymhellion

A1 Canolbwyntio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar feysydd datblygu'r ysgol y mae angen eu gwella fwyaf

A2 Mynd i'r afael â'r anghysondebau mewn addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y dylent ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

**Dysgu**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â medrau islaw'r rhai sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag ADY, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol.

Mae medrau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion iau yn cymryd eu tro, yn gwrando ar ei gilydd ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau syml. Wrth i ddisgyblion symud o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 2, maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau â hyder cynyddol wrth drafod eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn dechrau cydweithio, gan rannu syniadau a gwrando ar safbwyntiau ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu siarad at ystod ddigon eang o ddibenion, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus. Mae disgyblion iau yn dechrau creu a chyfuno seiniau. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn ateb cwestiynau syml am yr hyn y maent yn ei ddarllen ac yn gwneud cynigion argyhoeddiadol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae disgyblion hŷn yn darllen â hyder, mynegiant a rhuglder. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn crynhoi plot stori yn gywir ac yn siarad amdano â brwdfrydedd.

Mae disgyblion iau yn datblygu medrau ysgrifennu newydd yn briodol. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir ac yn sillafu geiriau syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 3, mae disgyblion yn dechrau defnyddio nodweddion testunau perswadiol. Er enghraifft, wrth greu taflenni am lygredd mewn cefnforoedd, maent yn awgrymu penawdau bachog ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio disgrifio yn effeithiol wrth ail-ddweud stori gyfarwydd ac yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu yn eu gwaith testun. Er enghraifft, mae disgyblion

hŷn yn creu taflenni addysgiadol wrth ddysgu am Batagonia. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n ddigon da i feithrin eu medrau yn raddol. Nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n annibynnol ac yn greadigol, ac nid ydynt yn ysgrifennu at ystod o wahanol ddibenion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn briodol. Mae disgyblion iau yn ystyried pa rifau sy'n odrifau neu'n eilrifau ac yn creu blodau clai i ddangos eu dealltwriaeth. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn cyfrif ymlaen yn hyderus mewn lluosrifau o bump y tu hwnt i 100. Maent yn disgrifio beth sy'n gwneud siâp yn gymesur ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon wrth greu eu celf gymesur eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn mesur â chywirdeb ac yn defnyddio tablau'n gywir i gofnodi cysgodion yn ystod ymchwiliad ar oleuni a thywyllwch.

Mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfarch ei gilydd ag ymadroddion syml ac yn gofyn ac ateb cwestiynau sylfaenol. Erbyn Blwyddyn 4, mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig ag ystod o weithgareddau Cymraeg, gan ofyn ac ateb cwestiynau syml am eu diwrnod. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, fel ei gilydd. Er enghraifft, mae aelodau o'r Criw Cymraeg yn arwain gemau Cymraeg ar y maes chwarae ar gyfer disgyblion iau, ac mae hyn yn helpu datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwarae.

At ei gilydd, mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n addas. Mae disgyblion iau yn dechrau defnyddio dyfeisiau digidol, er enghraifft wrth ddod o hyd i wrthrychau lliw a thynnu eu llun yn ystod gwers Gymraeg. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio ystod o gymwysiadau a rhaglenni i gefnogi eu dysgu ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae disgyblion hŷn yn creu cyflwyniadau digidol gan ddangos eu dealltwriaeth o beryglon cloddio glo. Maent yn chwilio, yn lleoli ac yn dewis gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Maent yn datblygu eu medrau codio ac yn dysgu sut i animeiddio gwrthrychau fel rhan o brosiect ar fythau a chwedlau Cymreig.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarthiadau iau yn datblygu eu cydbwysedd a'u rheolaeth gan ddefnyddio beiciau a cherbydau balans. Defnyddiant ddeunyddiau adeiladu mawr y tu allan, fel cratiau a byrddau, i adeiladu strwythurau, gan gynnwys pontydd a balansau syml. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau echddygol manwl wrth ddefnyddio eitemau bach fel gefeiliau a phipedau i godi gwrthrychau bach. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn parhau i adeiladu ar eu medrau corfforol yn llwyddiannus mewn gwersi a chlybiau ar ôl yr ysgol ac yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon cystadleuol a thripiau preswyl.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol ac artistig yn dda, at ystod o ddibenion. Mae disgyblion iau yn mwynhau arbrofi â lliw i greu peintiadau o'r planhigion a geir yn eu hardaloedd dysgu yn yr awyr agored. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn dechrau ychwanegu manylder at eu darluniau arsylwadol ac yn datblygu eu defnydd o arlliw a chysgod. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd da o ddeunyddiau naturiol i greu collages diddorol gan ddefnyddio

deunyddiau naturiol, ac mae disgyblion hŷn yn dylunio a chreu cerbydau gan ddefnyddio deunyddiau wedi’u hailgylchu.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais ac yn barchus tuag at staff, ymwelwyr a’u cyfoedion. Maent yn gwybod ac yn dangos gwerthoedd yr ysgol i ofalu, rhannu a dysgu gyda’i gilydd. Maent yn falch o’u hysgol ac yn gwerthfawrogi’r cymorth a gânt gan athrawon. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn saff ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen help a chefnogaeth arnynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi natur amrywiol eu hysgol ac yn dathlu gwahaniaethau ei gilydd. Maent yn dangos eu chwilfrydedd wrth ddysgu am wahanol ddiwylliannau, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn deall pwysigrwydd tegwch a chynhwysiant. Maent yn dangos parch at gredoau ei gilydd ac yn mwynhau cyfleoedd i siarad am eu ffyrdd o fyw, eu traddodiadau a’u hieithoedd eu hunain. Mae’r Grŵp Parchu Hawliau yn gweithredu ‘Mater Misol’ i hyrwyddo hawliau plant, er enghraifft yr hawl i fyw mewn cartref diogel a bod pobl yn gwrando arnynt. Mae bron pob un o’r disgyblion yn myfyrio ar genhadaeth ddyddiol yr ysgol ac yn cael cyfleoedd i siarad am sut maent yn rhoi hyn ar waith. Maent yn aml yn rhoi’r cenadaethau hyn ar waith, er enghraifft i ofalu am eu ffrindiau a’r amgylchedd.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn grwpiau arweinyddiaeth ac yn cyflawni eu rolau ag ymrwymiad a brwdfrydedd. Yn y grwpiau hyn, maent yn mwynhau cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, yn trafod sut mae eu gweithredoedd yn cael effaith ar y byd o’u cwmpas, ac yn ystyried sut gallant helpu pobl mewn angen. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn hyrwyddo prosiect ‘Cadwch Frynmawr yn Daclus’ ac yn gwneud casgliadau ailgylchu bob dydd. Maent yn trefnu gwerthiannau gwisg ysgol ail-law i gynorthwyo teuluoedd ac yn cynnal digwyddiadau elusennol i gynorthwyo plant mewn angen mewn gwledydd eraill. Mae’r Grŵp Cyfeillgarwch ac Amrywiaeth yn trefnu a rheoli ‘mainc cyfeillion’ i helpu disgyblion i wneud ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn parchu rheolau’r ysgol ac yn hyrwyddo’r rhain yn effeithiol wrth gefnogi gweithgareddau maes chwarae. Mae gan bron bob un o’r disgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ymgysylltu â dysgu yn frwdfrydig ac yn ymdawelu’n gyflym mewn gwersi. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando’n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau i gwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ymateb i’r adborth a roddir iddynt i fynegi faint maent yn cael eu herio, yn eu barn nhw, neu’u mwynhad o weithgaredd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta’n iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau da â’u byrbrydau a’u diodydd, gan ddewis ffrwyth a dŵr. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau defnyddio’r ardaloedd awyr agored, yn ystod gwersi ac amseroedd egwyl, ac mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu medrau corfforol trwy gydol y dydd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau entrepreneuraidd a datrys problemau yn dda. O roi’r cyfle iddynt, maent yn dangos gwydnwch ac annibyniaeth gynyddol mewn sefyllfaoedd heriol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mwynhau

dod o hyd i atebion wrth roi cyfarwyddiadau i gerbydau symudadwy symud o gwmpas rhwystrau yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn nodi problemau ac yn ceisio dod o hyd i atebion yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm ystyrlon i gyd-fynd ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n adlewyrchu ardal leol yr ysgol a threftadaeth Gymreig. Mae llawer o athrawon yn cynllunio dewislen eang o brofiadau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau, gan gynnwys eu medrau artistig, creadigol a digidol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn cyfuno'u medrau creadigol a digidol wrth ddefnyddio ffotograffau a darluniau i greu animeiddiadau syml o gylch bywyd iâr fach yr haf. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o ardaloedd dysgu yn yr awyr agored i gynllunio profiadau dysgu pwrpasol ar gyfer disgyblion iau. Er enghraifft, maent yn creu gorsaf gwaith coed i ddisgyblion iau greu strwythurau pren ac yn dynodi mannau i ddisgyblion ddatblygu eu dychymyg wrth greu cartrefi ar gyfer trychfilod bach.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o dripiau ac ymweliadau ysgol addas sy'n ehangu profiadau disgyblion ac yn cefnogi eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gweithio gyda'r swyddog bioamrywiaeth lleol i ddysgu am adar ac anifeiliaid yn eu bro, ac mae disgyblion hŷn yn mwynhau ymweld â'r Senedd i gael gwybod am Senedd Cymru.

Trwy wythnosau a digwyddiadau thema, mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwysig i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb. Maent yn defnyddio'u cymuned leol yn effeithiol i ddathlu'r diwylliannau niferus a geir yn yr ysgol, er enghraifft trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fwynhau bwyd traddodiadol o wledydd eraill a dathlu gwyliau fel Diwali.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth Cymru. Maent yn creu cyfleoedd yn llwyddiannus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn arwain gemau ar y maes chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amgylcheddau dysgu i arddangos geirfa ac ymadroddion Cymraeg, ac mae hyn yn helpu disgyblion wrth ofyn ac ateb cwestiynau.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol. Maent yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymgymryd ag ystod o ddigwyddiadau chwaraeon ac yn trefnu wythnos chwaraeon i hyrwyddo datblygiad corfforol. Maent yn partneru â chlybiau lleol i ddarparu sesiynau rhagflas fel sglefrfyrddio, bowls a carate ac yn darparu clybiau ar ôl yr ysgol i gefnogi ymgysylltiad disgyblion mewn gweithgareddau chwarae. Mae'r sesiynau hyn yn hynod fuddiol i ddisgyblion sy'n cael cyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd ag ystod o wahanol weithgareddau chwaraeon, y tu hwnt i'r rhai a gynigir yn ystod y diwrnod ysgol.

Pan mae'r addysgu'n effeithiol, mae athrawon yn meddu ar wybodaeth dda am y cwricwlwm ac yn defnyddio asesiadau'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n adeiladu ar wybodaeth a medrau presennol disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn defnyddio holi effeithiol i gefnogi a herio

disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio asesu yn effeithiol i gynllunio ar gyfer camau nesaf disgyblion mewn dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud mewn llafaredd ac ysgrifennu. At ei gilydd, mae mwyafrif o athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu ac nid yw disgyblion yn datblygu'n briodol fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio asesiadau i fonitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Maent yn dechrau rhoi adborth rheolaidd i ddisgyblion ar eu dysgu. Trwy gydol y dydd, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio adborth i ganmol ymdrechion, i sicrhau bod disgyblion yn gweithio'n ddiwyd a mynd i'r afael â chamgymeriadau mewn gwaith. Pan mae'r adborth yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn rhyngweithio â disgyblion yn ystod gwersi ac yn defnyddio holi yn effeithiol i helpu disgyblion i ddeall eu dysgu. Maent yn eu hannog i fyfyrio ar y medrau a ddatblygant a gwneud gwelliannau i'w gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn ac nid yw disgyblion bob amser yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r hyn y maent wedi'i wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau darllen disgyblion a hyrwyddo cariad at ddarllen. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu siarad at ystod ddigon eang o ddibenion. Nid ydynt yn cael cyfleoedd rheolaidd i olygu ac ailddrafftio'u gwaith i'w wella'n ddigonol, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y dylent.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau addas i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion. Maent yn darparu gweithgareddau ymarferol gwerthchweil ar gyfer y disgyblion ieuengaf i ddatblygu eu dealltwriaeth o rifau i 10. Mae disgyblion hŷn yn dewis dulliau ar gyfer cyfrifo problemau rhif ac yn rhoi strategaethau ar waith i wirio cywirdeb eu hatebion. Mae llawer o athrawon yn darparu gweithgareddau pwrpasol i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau rhifedd wrth ddatrys problemau rhifau wedi'u geirio. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cyfrifo canrannau i ganfod gostyngiadau ar brisiau gwyliau. Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o fesur ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r awyr agored i gefnogi hyn. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn defnyddio dwylo i fesur a chymharu maint gwahanol wrthrychau yn yr ardaloedd chwarae ac mae disgyblion hŷn yn defnyddio centimetrau a metrau i fesur a chymharu taldra'i gilydd.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae arweinwyr, athrawon a staff cymorth yn gweithio'n effeithiol i greu amgylchedd gofalgar ac anogol, lle mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn teimlo'i fod yn cael ei gynorthwyo a'i gynnwys. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae lles disgyblion yn flaenoriaeth bwysig i arweinwyr a staff. Mae staff yn ffurfio perthnasoedd gweithio cryf â disgyblion. Maent yn trin disgyblion yn deg, yn gyfartal ac yn eu parchu. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu cymorth buddiol ar gyfer anghenion emosiynol disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn ymddwyn yn gyson dda trwy gydol y diwrnod ysgol.

Mae athrawon yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion sy'n newydd i'r gymuned a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Maent yn cynllunio

cyfleoedd rheolaidd i deuluoedd newydd ymgysylltu â bywyd yr ysgol ac yn cynorthwyo teuluoedd wrth weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill ac asiantaethau. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i rannu gwybodaeth am iechyd a chysylltiadau cymunedol ac ymagweddau at gefnogi darllen gartref.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar waith i fonitro cynnydd disgyblion ag ADY. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gydag athrawon i nodi disgyblion a allai elwa ar gymorth, ac yn darparu ymyrraeth gynnar i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Maent yn darparu cymorth targedig i ddatblygu anghenion dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael eu targedu ar gyfer cymorth a'r rhai ag ADY yn gwneud cynnydd da.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bob un o'r disgyblion hŷn ymuno â grwpiau arweinyddiaeth, gan gynnwys y Cyngor Ysgol, Planet Protectors a'r Criw Cymraeg, sy'n cynorthwyo disgyblion i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfrannu at ddatblygu'r ysgol. Mae'r disgyblion mwyaf effeithiol yn arwain ac yn gweithredu ar y penderfyniadau a wnânt. Er enghraifft, sicrhaodd y Planet Protectors grant i wella tir a rennir rhwng yr Eglwys a'r ysgol, ac maent yn gweithio'n galed i gynnal a datblygu tir yr ysgol er budd pob disgybl.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddod i wybod am wahanol grefyddau a dathlu'r gwahanol ddiwylliannau a gynrychiolir yn yr ysgol trwy ddiwrnodau diwylliant ysgol gyfan. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a chynhwysiant trwy'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu iaith arwyddion ac mae hyn yn helpu datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut gall eu gweithredoedd wneud gwahaniaeth i bobl eraill.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am fwydydd iach a phwysigrwydd ymarfer corff. Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd i ddisgyblion elwa ar weithgareddau corfforol a chwaraeon tîm, gan gynnwys pêl-droed a phêl-rwyd. Maent yn creu ardaloedd â seddi meddal mewn ystafelloedd dosbarth lle gall disgyblion fyfyrio ar eu hemosiynau. Maent yn darparu byrddau gwerthfawrogi i annog disgyblion i ysgrifennu sylwadau cadarnhaol am ei gilydd. Mae'r strategaethau hyn yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw pob disgybl yn ddiogel yn effeithiol ac nid ydynt yn peri pryder. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r awdurdod lleol a'r eglwys gyfagos i sicrhau bod safle'r ysgol yn lle diogel ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ddiogelwch ar y rhyngrwyd a phwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau â phobl eraill.

Mae arweinwyr yn monitro presenoldeb disgyblion yn agos. Maent yn nodi disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i hyrwyddo pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chyrraedd yn brydlon. Mae athrawon yn defnyddio systemau gwobrwyo i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair wedi creu ysgol groesawgar a gofalgar lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod pobl yn gwrando arnynt. Maent wedi sefydlu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio ar 'ofalu, rhannu a gweithio gyda'n gilydd'. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda staff, disgyblion a'u teuluoedd i gynnig cymorth, ac yn cysylltu ag asiantaethau allanol i gael mwy o gymorth. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion a'u teuluoedd yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'r ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol â disgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Dangosant barch, gofal a chymorth at ei gilydd. Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd gwerthfawr i deuluoedd ymgysylltu â bywyd yr ysgol ac maent yn arbennig o gefnogol i deuluoedd sy'n newydd i'r ysgol. Maent yn trefnu boreau coffi i groesawu teuluoedd newydd ac yn trefnu i asiantaethau cymorth gynorthwyo teuluoedd, er enghraifft wrth gwblhau ceisiadau grant am wisg ysgol. Mae arweinwyr yn trefnu digwyddiadau cydweithredol sy'n galluogi rhieni a phlant i ddysgu ochr yn ochr â'i gilydd ac arddangos eu gwaith. Mae arweinwyr hefyd yn creu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ac yn eu gwahodd i gefnogi digwyddiadau codi arian.

Mae arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion uwchradd i gynorthwyo disgyblion pan fyddant yn pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Ceir cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion hŷn ymweld ag ysgolion uwchradd, cyfranogi mewn gwersi a chymryd rhan mewn digwyddiadau allgyrsiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cymryd rhan yn Bryn Trek ac yn defnyddio'r cyfle hwn i ddod i adnabod disgyblion o ysgolion cynradd eraill. Mae arweinwyr yn datblygu cysylltiadau buddiol â'r lleoliad cyn-ysgol lleol ac mae hyn yn helpu athrawon i ddod i adnabod teuluoedd a'u plant cyn iddynt ddechrau yn y dosbarth meithrin.

Mae arweinwyr yn datblygu synnwyr cryf o ymrwymiad wrth yrru gwelliant yr ysgol. Maent yn uchelgeisiol ac yn rhannu awydd ar y cyd i ehangu'r profiad dysgu ar gyfer pob disgybl. Mae athrawon yn gweithio'n llwyddiannus gyda darparwyr allanol i ddarparu ystod o gyfleoedd cerddorol, creadigol a chwaraeon ac mae'r rhain yn cyfoethogi'r cwricwlwm sydd ar gael.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr a staff wedi ymrwymo i wella datblygiad disgyblion yn y Gymraeg a'u gwybodaeth am ddiwylliant Cymru. Mae arweinwyr yn darparu datblygiad staff gwerthfawr i wella'u harbenigedd ac mae hyn yn cefnogi cynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn casglu ystod eang o dystiolaeth i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae arweinwyr yn gweithio'n llwyddiannus gydag ymgynghorwyr i adolygu darpariaeth yr ysgol ar gyfer ADY i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion diwygio ADY. Mae arweinwyr yn alinio cyfleoedd datblygiad proffesiynol â blaenoriaethau'r ysgol ac yn galluogi staff i rannu arfer effeithiol. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiad yr ysgol o'i gwaith yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn cynllunio i fynd i'r afael â gormod o feysydd i'w gwella, ac o ganlyniad, nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon agos ar yr agweddau sydd angen eu gwella fwyaf, fel anghysondebau yn ansawdd yr addysgu.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro sy'n eu helpu i ddatblygu dealltwriaeth o ddarpariaeth a gwaith gwella'r ysgol. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i gyfrannu'n briodol, er enghraifft wrth werthuso cynnydd yr ysgol tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli a monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Maent yn adolygu gwariant ac yn sicrhau bod cyllid grant yn cyfrannu'n briodol at wella deilliannau disgyblion. Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn sicrhau bod systemau clir ar waith ar gyfer diogelu disgyblion a staff, a bod trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  12/08/2024